At ddefnydd y swyddfa yn unig Rhif yr Apêl:	

HYSBYSIAD APÊL – BANDIO'R DRETH GYNGOR

PWYSIG: GOFYNNIR I CHI DDARLLEN YR ADRAN HON CYN CWBLHAU'R FFURFLEN

Cewch gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Prisio yn yr amgylchiadau canlynol yn unig.

- Rydych wedi gwneud cynnig ffurfiol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA)[1] i newid Rhestr Brisio'r Dreth Gyngor, mae'r VOA wedi cyhoeddi ei benderfyniad ar y mater, ac rydych yn dymuno apelio'r penderfyniad hwnnw.
- Rydych wedi gwneud cynnig ffurfiol i'r VOA i newid Rhestr Brisio'r Dreth Gyngor, ac mae'r VOA wedi methu â rhoi penderfyniad terfynol i chi ar y mater o fewn 4 mis i chi wneud eich cynnig.
- Rydych wedi gwneud cynnig ffurfiol i'r VOA i newid Rhestr Brisio'r Dreth Gyngor, ac mae'r VOA wedi penderfynu bod eich cynnig yn ddiffygiol mewn rhyw ffordd ac wedi cyhoeddi Hysbysiad Annilysrwydd.

Os yw un o'r amgylchiadau uchod yn gymwys i chi, cewch ddefnyddio'r ffurflen hon i gofrestru apêl gyda'r Tribiwnlys Prisio (TP). **Mae terfynau amser ar gyfer cofrestru apêl gyda'r TP**. Os ydych yn apelio o dan un o'r ddau amgylchiad cyntaf sy'n cael eu disgrifio uchod, rhaid i chi gofrestru eich apêl O FEWN PEDWAR MIS ar ôl derbyn hysbysiad am benderfyniad y VOA neu O FEWN PEDWAR MIS i'r dyddiad pan ddylai'r VOA fod wedi rhoi penderfyniad ffurfiol i chi (dangosir y dyddiad hwn ar gydnabyddiaeth y VOA o'ch apêl). Yn achos Hysbysiad Annilysrwydd VOA rhaid i chi gofrestru eich apêl o fewn pedair wythnos.

GALL apelau hwyr yn y ddau amgylchiad cyntaf gael eu derbyn gan Lywydd y Tribiwnlys, ond mewn achosion lle dangosir yn glir fod yr oedi wrth wneud yr apêl wedi codi oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y ceisydd yn unig. Rhaid rhoi'r rhesymau am gyflwyno'r apêl yn hwyr ar y ffurflen ac mae penderfyniad y Llywydd i dderbyn yr apêl neu beidio yn derfynol.

Gellir dod o hyd i ganllawiau sy'n ymdrin â'r wybodaeth sydd ei hangen ar adran benodol yn y ffurflen hon ar ddiwedd y ddogfen hon.

Ydych chi'n apelio yn erbyn yr hysbysiad penderfynu a gyhoeddwyd gan y VOA?	**Os "Ydw", cwblhewch Adrannau A a B, ac Adran CH (os yn berthnasol)**
Ydych chi'n apelio achos bod y VOA wedi methu â gwneud penderfyniad o fewn 4 mis i'ch cynnig i newid y Rhestr Brisio?	**Os "Ydw", cwblhewch Adrannau A ac C, ac Adran CH (os yn berthnasol)**
Ydych chi'n gwneud apêl hwyr? ***(h.y. y tu allan i'r terfyn amser pedwar mis)***	**Os "Ydw", cwblhewch Adran D**
Ydych chi'n apelio yn erbyn Hysbysiad Annilysrwydd a anfonwyd atoch gan y VOA?	**Os "Ydw", cwblhewch Adrannau A ac DD**

[1] Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yw'r corff sy'n gyfrifol am lunio a chynnal Rhestr Brisio'r Dreth Gyngor h.y. mae'n prisio anheddau ac yn eu gosod o fewn bandiau prisio.

Adran A – Manylion Personol

Rhowch eich manylion i mewn isod - ***DS:*** *Os ydych yn cwblhau'r adran hon ar ran rhywun arall, ysgrifennwch eu manylion yn y blwch isod, os gwelwch yn dda*.

Enw Llawn	
Cyfeiriad eiddo'r apêl:	
Manylion Cyswllt	
Cyfeiriad (os yw'n wahanol i eiddo'r apêl):	
Rhif Ffôn:	
Cyfeiriad Ebost:	

Enw Cyswllt y Cynrychiolydd: ***(os yn berthnasol)***	
Manylion Cyswllt y Cynrychiolydd	
Cyfeiriad:	
Rhif Ffôn:	
Cyfeiriad Ebost:	

A ydych yn rhoi eich awdurdod i'r person a enwir uchod weithredu ar eich rhan ynglŷn â'r apêl hon?

Ydw	Nac Ydw
☐	☐

Sut byddai'n well gennych chi neu'ch cynrychiolydd i ni gysylltu â chi?

	Chi	Cynrychiolydd
Post:	☐	☐
Ffôn:	☐	☐
Ebost:	☐	☐

Adran B – CYHOEDDWYD Hysbysiad Penderfynu gan y VOA

*Unwaith i chi wneud cynnig i newid Rhestr Brisio'r Dreth Gyngor, dylai'r VOA gydnabod derbyn eich cynnig ac fel arfer bydd yn cyhoeddi ei benderfyniad o fewn 4 mis i dderbyn y cynnig. Os **yw'r** VOA **wedi cyhoeddi hysbysiad penderfynu terfynol**, cewch ddefnyddio'r adran hon i apelio i'r TP. Rhaid cyflwyno apelau o fewn 4 mis i'r hysbysiad am benderfyniad y VOA.*

Rhif achos y VOA:	
Y dyddiad y gwnaethoch eich cynnig Treth Gyngor:	
Dydiad Hysbysiad Penderfynu'r VOA:	

Rhowch eich rhesymau am wneud yr apêl hon os gwelwch yn dda (cewch ychwanegu dalen barhau).

Gofynnir i chi gyflwyno'r dogfennau canlynol gyda'ch apêl. Os yw unrhyw un o'r dogfennau a restrir isod wedi'u cynnwys o fewn Hysbysiad Penderfynu'r VOA, nid oes angen darparu copïau dyblyg o'r deunydd yma. Marciwch y blychau i ddangos eich bod wedi gwneud hynny, os gwelwch yn dda.

☐	Copi o'r Hysbysiad Penderfynu a dderbyniwyd gan y VOA
☐	Copi o'ch cynnig a anfonwyd at y VOA
☐	Copi o'r gydnabyddiaeth am dderbyn eich cynnig a roddwyd gan y VOA
☐	Copi o'r wybodaeth am yr eiddo a roddwyd i chi gan y VOA

*[**DS** – Os yw'r apêl hon yn cael ei chyflwyno'n hwyrach na'r terfyn amser 4 mis y cyfeiriwyd ato uchod, **rhaid** i chi gwblhau **Adran D** hefyd i ofyn am estyniad i gyfyngiad amser yr apêl.]*

Adran C – NI chyhoeddwyd Hysbysiad Penderfynu gan y VOA

*Unwaith i chi wneud cynnig i newid Rhestr Brisio'r Dreth Gyngor, dylai'r VOA gydnabod derbyn eich cynnig a rhoi gwybod i chi am ei benderfyniad. Os **nad yw'r VOA wedi cyhoeddi hysbysiad penderfynu terfynol** o fewn 4 mis, gallwch ddefnyddio'r adran hon i apelio i'r TP. Rhaid cyflwyno apelau o fewn 4 mis i'r dyddiad y dywedodd y VOA wrthych y byddai'n cyfleu ei benderfyniad.*

Rhif achos y VOA:	
Y dyddiad y gwnaethoch eich cynnig Treth Gyngor:	

Rhowch eich rhesymau am wneud yr apêl hon os gwelwch yn dda (cewch ychwanegu dalen barhau).

Gofynnir i chi gyflwyno'r dogfennau canlynol gyda'ch apêl. Marciwch y blychau i ddangos eich bod wedi gwneud hynny, os gwelwch yn dda.

☐	Copi o'ch cynnig a anfonwyd i'r VOA
☐	Copi o'r gydnabyddiaeth am dderbyn eich cynnig a roddwyd gan y VOA
☐	Copi o'r wybodaeth am yr eiddo a roddwyd i chi gan y VOA

*[**DS** – Os yw'r apêl hon yn cael ei chyflwyno'n hwyrach na'r terfyn amser 4 mis y cyfeiriwyd ato uchod, **rhaid** i chi gwblhau **Adran D** hefyd i ofyn am estyniad i gyfyngiad amser yr apêl.]*

Adran CH – Manylion am Dalwr y Dreth Gyngor (os yw'n wahanol i chi) neu unrhyw Berson arall â Buddiant

Gofynnir i chi roi manylion y person sy'n talu'r Dreth Gyngor am yr eiddo rydych chi'n apelio amdano, os nad chi yw Talwr y Dreth Gyngor. Er enghraifft, y tenant fydd hwn os mai chi yw perchennog yr eiddo ac yn ei osod.

Enw Llawn	
Manylion Cyswllt	
Cyfeiriad:	
Rhif Ffôn:	
Cyfeiriad Ebost:	

Gofynnir i chi roi manylion unrhyw un a all fod â buddiant yn yr apêl am gofnod yr eiddo hwn yn Rhestr Brisio'r Dreth Gyngor. Gallai hyn gynnwys y perchennog neu'r landlord os ydych chi'n denant, neu unrhyw un sy'n meddiannu'r eiddo o dan drwydded neu gytundeb arall.

Enw Llawn	
Manylion Cyswllt	
Cyfeiriad:	
Rhif Ffôn:	
Cyfeiriad Ebost:	

Adran D – Rheswm am gais hwyr

Defnyddiwch y lle isod i esbonio pam na chyflwynwyd yr apêl o fewn y terfyn amser penodedig, os gwelwch yn dda:

At ddefnydd y swyddfa yn unig:	
Dyddiad cyflwyno i Lywydd y TP i'w ystyried:	
Awdurdodi'r Cais:	
Dyddiad Awdurdodi'r Cais:	
Gwrthod y Cais:	
Dyddiad Gwrthod y Cais:	

Adran DD – Cyhoeddwyd Hysbysiad Annilysrwydd gan y VOA

Pan fydd y swyddog rhestru yn ystyried nad yw eich cais wedi'i wneud yn ddilys, bydd y VOA yn cyflwyno Hysbysiad Annilysrwydd i chi o fewn 4 wythnos i'w dderbyn. Rhaid cyflwyno apelau yn erbyn Hysbysiadau Annilysrwydd o fewn 4 wythnos i ddyddiad cyhoeddi'r Hysbysiad Annilysrwydd. D.S. Nid oes darpariaeth ar gyfer apelau hwyr yn erbyn Hysbysiadau Annilysrwydd.

Rhif achos y VOA:	
Y dyddiad y gwnaethoch eich cynnig Treth Gyngor:	
Dyddiad Hysbysiad Annilysrwydd y VOA:	

Rhowch eich rhesymau am eich apêl yn erbyn yr Hysbysiad Annilysrwydd os gwelwch yn dda.

Gofynnir i chi gyflwyno'r dogfennau canlynol gyda'ch apêl.

☐	Copi o'r Hysbysiad Annilysrwydd a dderbyniwyd gan y VOA
☐	Copi o'ch cynnig a anfonwyd i'r VOA (os yw ar gael)

Nodiadau Canllaw

Gofynnir i chi ddarllen yr wybodaeth yma yn ofalus. Gall fod o gymorth i chi.

Cyn cwblhau'r ffurflen hon, yn y lle cyntaf, mae'n rhaid eich bod wedi cyflwyno cynnig i Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn erbyn cofnod (neu ddiffyg cofnod) eiddo yn Rhestr Brisio'r Dreth Gyngor.

Nodiadau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen apelio

Adran A – Mae angen cwblhau'r adran hon ym mhob achos a dylid rhoi enw'r person (yr apelydd) sy'n gwneud yr apêl, i'r Tribiwnlys. Hefyd, mae'n fodd i'r apelydd roi gwybod i'r TP am fanylion unrhyw un maen nhw'n eu hawdurdodi i weithredu ar eu rhan ac a all eu cynrychioli nhw ynglŷn â'r apêl hon.

Bydd y TP yn defnyddio'r manylion hyn i gofrestru'r apêl hon a chofnodi eich dewis dull cysylltu.

Adran B – CYHOEDDWYD Hysbysiad Penderfynu gan y VOA

Gofynnir i chi ddefnyddio'r adran hon os dymunwch apelio'r Hysbysiad Penderfynu a gyflwynwyd i chi gan y VOA. Mae'n rhaid gwneud eich apêl o fewn 4 mis i ddyddiad cyhoeddi'r Hysbysiad Penderfynu. Mae'n bwysig rhoi copi o'r Hysbysiad Penderfynu a'ch rhesymau am apelio'r Hysbysiad wrth gyflwyno'r ffurflen hon.

Ni ddylid anghofio amgáu'r ddogfennaeth berthnasol, e.e. copi o'r cynnig a chydnabyddiaeth y VOA, wrth gyflwyno'r ffurflen hon. Ni fydd y TP yn medru cofrestru eich apêl heb yr wybodaeth yma.

Adran C – NI chyhoeddwyd Hysbysiad Penderfynu gan y VOA

Gofynnir i chi ddefnyddio'r adran hon os ydych wedi cyflwyno cynnig i'r VOA ond ni dderbyniwyd Hysbysiad Penderfynu o fewn 4 mis i gyflwyno eich cynnig. Gallwch aros i'r VOA gyhoeddi ei Hysbysiad Penderfynu, a bydd gennych 4 mis i apelio yn erbyn yr Hysbysiad Penderfynu pan gaiff ei dderbyn. Fel arall, gallwch apelio o fewn 4 mis i'r dyddiad y dywedodd y VOA wrthych y byddai'n cysylltu â chi gyda'i benderfyniad ffurfiol. Rhoddwyd y dyddiad hwn yn y gydnabyddiaeth a anfonwyd atoch pan dderbyniodd y VOA eich cynnig a/neu mewn llythyr anfonodd y VOA atoch i roi gwybod i chi y byddai oedi wrth gyhoeddi ei benderfyniad.

Ni ddylid anghofio amgáu'r ddogfennaeth berthnasol, e.e. y cynnig, y gydnabyddiaeth a'r wybodaeth am yr eiddo, wrth gyflwyno'ch ffurflen. Ni fydd y TP yn medru cofrestru eich apêl heb yr wybodaeth yma.

Adran CH – Manylion am Dalwr y Dreth Gyngor neu unrhyw Berson arall â Buddiant

Os mai chi yw perchennog eiddo rydych chi'n ei osod a chi sy'n gwneud yr apêl, bydd angen i chi roi manylion y tenant sy'n gyfrifol am dalu'r Dreth Gyngor i ni.

Fel arall, os mai chi yw'r meddiannydd, bydd angen i chi roi manylion perchennog neu landlord yr eiddo neu'r rhan o'r eiddo rydych chi'n byw ynddi, i ni.

Adran D – Rheswm am gais hwyr

Rhaid gwneud apêl o fewn 4 mis i ddyddiad cyhoeddi'r Hysbysiad Penderfynu neu o fewn 4 mis i ddiwedd y cyfnod a ganiateir i'r VOA gyhoeddi ei benderfyniad. Os ydych chi wedi methu â gwneud yr apêl o fewn y raddfa amser a nodwyd ac os oes gennych reswm da am ei chyflwyno'n hwyr, dylech gwblhau Adran D.

Yn Adran D mae angen i chi esbonio'r rhesymau y tu ôl i gyflwyno'r apêl hon yn hwyr.

Wedyn cyflwynir y ffurflen apelio i Lywydd y TP a all awdurdodi ystyried yr apêl allan o amser os yw'n gweld yn dda. Os derbynnir eich apêl hwyr gan y Llywydd, defnyddir y manylion a ddarperir ar y ffurflen hon i gofrestru eich apêl a thrwy hynny osgoi oedi pellach.

Rhoddwn wybod i chi fod eich apêl allan o amser a na chaiff ei chofrestru os yw'r Llywydd yn penderfynu nad oes rheswm da i dderbyn eich apêl hwyr.

Adran DD – Cyhoeddwyd Hysbysiad Annilysrwydd gan y VOA

Rhaid cyflwyno apelau yn erbyn Hysbysiadau Annilysrwydd o fewn 4 wythnos i ddyddiad cyhoeddi'r Hysbysiad. Nid oes darpariaeth ar gyfer cyflwyno apelau yn erbyn Hysbysiadau Annilysrwydd yn hwyr.

Gofynnir i chi ddefnyddio'r adran hon os ydych wedi cyflwyno cynnig i'r VOA ac wedi derbyn Hysbysiad Annilysrwydd. Bydd angen i chi roi rhesymau pam nad ydych yn cytuno â Hysbysiad Annilysrwydd y VOA a pham rydych yn ystyried bod yr wybodaeth roeddech wedi'i darparu yn eich cynnig yn ddigon i'w wneud yn un dilys.

Ni ddylid anghofio amgáu'r ddogfennaeth berthnasol, e.e. Hysbysiad Annilysrwydd. Ni fydd y TP yn medru cofrestru eich apêl heb yr wybodaeth yma.

DIOGELU DATA

Mae Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) yn rheolydd data o dan y Ddeddf Diogelu Data.

Rydym yn cadw gwybodaeth am resymau cyfreithiol, er enghraifft, er mwyn galluogi'r Tribiwnlys Prisio i wneud penderfyniadau am apelau. Mae'n ofynnol cadw cofnodion o'r penderfyniadau hyn am gyfnod o chwe blynedd.

Pan dderbyniwn eich apêl, gall fod angen i ni gael hyd i wybodaeth amdani gan y Cyngor neu Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA). Bydd hyn yn ein helpu i ymdrin â'ch apêl cyn gynted ag y bo modd. Hefyd, byddwn yn rhoi gwybod i'r VOA eich bod wedi gwneud apêl.

Byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth a gawn gennych chi neu'r VOA mewn perthynas â'ch apêl.

Noder os gwelwch yn dda: Nid ydym yn dychwelyd unrhyw ddogfennau rydych chi'n eu hanfon atom oni wneir cais penodol gennych ar ddechrau proses yr apêl. Caiff pob dogfen ei sganio, ei darnio a'i gwaredu yn ddiogel, felly peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol atom.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Nid yw'r nodiadau hyn yn rhoi manylion llawn y gyfraith. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar wefan y TP:

www.tribiwnlysprisio.cymru

Os oes angen gwybodaeth bellach neu gymorth wrth gwblhau'r ffurflen, gofynnir i chi gysylltu â Swyddfa'r TP - dangosir ei manylion isod.

Tribiwnlys Prisio Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG

Ffôn: 01633 255003

E-bost: gohebiaeth@tribiwnlysprisio.cymru